Department for Education

# Bargen Deg Newydd ar gyfer Pensiynau a chynyddu cyfraniadau aelodau

12 Tachwedd 2013

# Cynnwys

Cynnwys 2

Cynigion i Ymgynghori Arnynt 3

Mater Polisi 1 - Bargen Deg 3

Polisi 1 - Cwestiynau'r ymgynghoriad 5

Mater Polisi 2 - Cynyddu cyfraddau cyfraniadau aelodau 5

Polisi 2 - Cwestiynau'r ymgynghoriad 8

Mater Polisi 3 - Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 8

Sut i ymateb 8

Copïau Ychwanegol 9

Cynlluniau ar gyfer cyhoeddi'r canlyniadau 9

Atodiad A: Cytundeb Cyfranogi Drafft 10

# Cynigion i Ymgynghori Arnynt

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar y canlynol:

1. Dull gweithredu'r Adran o ran cyflwyno trefniadau Bargen Deg newydd i'r Cynllun Pensiynau Athrawon (TPS);
2. Y trefniadau ar gyfer cyfraddau cyfraniadau cyflogeion ar gyfer 2014/15 (cyfraniadau blwyddyn 3);
3. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth am newidiadau testun tebygol i'r cynllun sy'n ofynnol o ganlyniad i gyflwyno Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013.

   Caiff canlyniadau'r ymgynghoriad hwn eu gweithredu o fewn Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2010, ym mis Ebrill 2014 a'u cynnwys o fewn rheoliadau diwygio'r cynllun.

# Mater Polisi 1 - Bargen Deg

**Cefndir**

1. Mae'r Fargen Deg yn bolisi anstatudol, a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi (y Trysorlys), sy'n nodi sut yr ymdrinnir â phensiynau pan gaiff staff eu trosglwyddo'n orfodol o'r sector cyhoeddus i ddarparwyr annibynnol sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

2. Cyhoeddwyd "Staff Transfers from Central Government: A Fair Deal for Staff Pensions", gan y Trysorlys ym mis Mehefin 1999, a chyflwynodd y Fargen Deg. (Cyhoeddwyd canllawiau pellach ym mis Mehefin 2004.) Y dull gweithredu newydd a nodwyd oedd lle y câi aelodau o staff eu trosglwyddo'n orfodol o'r sector cyhoeddus, y byddai eu cyflogwr newydd yn trefnu iddynt allu ymuno â chynllun pensiwn galwedigaethol a oedd yn gymharol debyg i'r cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus roeddent yn ei adael; roedd y diogelwch hwn yn berthnasol i unrhyw drosglwyddiadau gorfodol dilynol.

**Y Cynnig**

3. Ar 4 Gorffennaf 2012, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'r Fargen Deg yn cael ei diwygio. Y cynnig polisi newydd oedd ehangu mynediad i bensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus. Byddai'n berthnasol i aelodau o staff a gâi eu symud o'r sector cyhoeddus i gontractwr annibynnol drwy drosglwyddiad gorfodol (h.y. trosglwyddiad o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE). Bydd staff o'r fath yn parhau i fod yn aelodau o'r cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yr oeddent yn aelodau ohono yn union cyn trosglwyddo, a dylent

barhau'n rhan o'r cynllun hwnnw, o dan yr un telerau ag aelodau eraill, ar gyfer y trosglwyddiad cychwynnol a throsglwyddiadau TUPE dilynol.

4. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y polisi Bargen Deg diwygiedig. Gellir gweld ymateb y Trysorlys i'r ymgynghoriad ar y polisi Bargen Deg yma. Cyhoeddwyd canllawiau (ar gael yma) gan y Trysorlys ac mae'r Adran wedi ystyried sut i roi'r trefniadau ar waith gan ystyried ar yr un pryd sut y gellir rheoli ac ymdopi â'r broses heb amlygu'r cynllun i risg ariannol.

**Gweithredu**

5. Mae angen ehangu mynediad i'r Cynllun Pensiynau Athrawon (TPS) er mwyn caniatáu mynediad i'r math o gyflogwr a oedd wedi'i eithrio yn flaenorol yn unol â chanllawiau newydd y Fargen Deg a ddarparwyd gan y Trysorlys. Y bwriad yw caniatáu i aelodau unigol barhau i gael mynediad i'r TPS tra y byddant yn parhau wedi'u cyflogi ar y contract allanol, a bydd y mynediad hwn hefyd yn parhau yn dilyn unrhyw drosglwyddiad(au) gorfodol dilynol, ar yr amod bod y trosglwyddiad hwnnw yn ymwneud â'r un contract gwasanaeth cyhoeddus.
6. Gall fod amgylchiadau eithriadol lle y bydd rhesymau arbennig dros beidio â darparu mynediad parhaus i'r TPS i gyflogwyr a dylid trafod yr amgylchiadau hyn gyda gweinyddwyr y cynllun a'r Adran Addysg. O dan amgylchiadau o'r fath, byddai angen cydymffurfio â darpariaethau'r hen Fargen Deg a chynnig cynllun cymharol debyg i'r aelodau o staff.
7. Ymhob achos, cynigir mai'r dewis opsiwn fydd i'r cyflogwr newydd sicrhau y gall staff sy'n trosglwyddo barhau i gael mynediad i'r TPS. Os nad hynny, yna bydd Canllawiau blaenorol y Fargen Deg yn parhau'n berthnasol, gan ei gwneud yn ofynnol i gyflogeion gael mynediad i gynllun cymharol debyg. Os na fydd y naill opsiwn na'r llall ar gael, y cynnig o dan y canllawiau newydd fydd y bydd y cyflogwr allanol yn ystyried p'un a ddylid cynnig iawndal i'r staff sy'n trosglwyddo - rhaid gwneud hyn drwy ymgynghori â staff neu gynrychiolwyr staff. Byddai angen cymryd cyngor actiwaraidd ar gyfrifo unrhyw iawndal o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, a gellir ystyried telerau swmpdrosglwyddo hefyd.

**Cytundeb Cyfranogi (Atodiad A)**

8. Bydd angen diwygio Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2010 (TPR), sy'n llywodraethu TPS, er mwyn sicrhau y gall staff sy'n trosglwyddo barhau i gael mynediad i'r cynllun. Bydd y mynediad parhaus hwn hefyd yn dibynnu ar y corff sy'n cyfranogi a'r awdurdod contractio yn llofnodi Cytundeb Cyfranogi, ac yn cyflawni unrhyw rwymedigaethau o dan y Cytundeb Cyfranogi a/neu'r TPS, e.e. darparu gwybodaeth am y staff sy'n trosglwyddo (gweler isod). Unwaith y bydd gweinyddwr y cynllun, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yn fodlon bod y rhwymedigaethau hyn wedi'u cwblhau, bydd gweinyddwr y cynllun yn cadarnhau mynediad i'r cynllun. Bydd y diwygiadau i'r TPR yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses hon gael ei chwblhau cyn y dyddiad arfaethedig ar gyfer trosglwyddo'r staff, er y cynigir y dylid diwygio'r rheoliadau er mwyn sicrhau y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ehangu'r terfyn amser hwnnw.

9. Darperir y Cytundeb Cyfranogi gan yr Ysgrifennydd Gwladol a bydd yn nodi rhwymedigaethau'r darparwr a'r awdurdod contractio, yn ogystal â'r rhwymedigaethau sy'n ofynnol o dan y rheoliadau drwy rinwedd y ffaith y derbynnir y darparwr fel cyflogwr. Atodir Cytundeb Cyfranogi enghreifftiol i gyflogwyr ei ddefnyddio wrth drefnu contractau allanol ar gyfer gwasanaethau yn Atodiad A. Caiff y Cytundeb Cyfranogi enghreifftiol hwn ei gynnal a'i ddiweddaru, a chaiff ei gyhoeddi ar wefan Pensiynau Athrawon.

10. Cynigir y caiff y TPR eu diwygio er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr gofrestru pob aelod o staff cymwys yn awtomatig i'r TPS, gan gynnwys y rhai hynny a benderfynodd eithrio o'r TPS yn flaenorol, ar ddiwrnod cyntaf y contract newydd. Bydd hyn yn pennu hawl i gymryd rhan yn y cynllun, a gall unigolion ddewis eithrio unwaith eto ar ôl hyn. O'r adeg hon ymlaen, daw'r brif ddeddfwriaeth o ran cofrestru awtomatig i rym fel y gwna ar gyfer pob aelod arall o'r cynllun.

11. Bydd y Cytundeb Cyfranogi yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr allanol roi manylion yr unigolion sy'n trosglwyddo i'r cyflogwr newydd sy'n parhau'n gymwys i fod yn aelodau o'r TPS i weinyddwyr y cynllun.

**Y gofyniad am fond, gwarant neu Indemniad**

12. Disgwylir i gontractwyr gydymffurfio â'r Cytundeb Cyfranogi. Fodd bynnag, cynigir y dylid diwygio'r rheoliadau er mwyn sicrhau pan fydd cyflogwr wedi methu â chyflawni ei rwymedigaethau, neu lle y bydd pryderon na fydd cyflogwr o bosibl yn cyflawni ei rwymedigaethau, y gall yr Adran ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr ategu ei gais â bond, gwarant neu indemniad, a fydd yn rhoi sicrwydd ariannol i'r cynllun, yn enwedig o ran cyfraniadau gan aelodau a chyflogwyr.

## Polisi 1 - Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1**: A ydych yn cytuno â dull arfaethedig yr Adran ar gyfer deddfu i ddarparu ar gyfer Canllawiau newydd y Fargen Deg?

**Cwestiwn 2**: A ydych yn cytuno y bydd geiriad arfaethedig y Cytundeb Cyfranogi yn helpu i sicrhau y bydd cyflogwyr newydd yn y TPS yn cyflawni eu rhwymedigaethau?

**Cwestiwn 3**: A ydych yn cytuno bod y cynnig i ganiatáu i'r Adran ofyn am fond, indemniad neu warant yn ffordd gymesur ac effeithiol o ddiogelu aelodau a chyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun ar hyn o bryd?

**Cwestiwn 4**: A ydych o'r farn bod yna faterion cydraddoldeb sy'n golygu y caiff y broses o roi'r Fargen Deg Newydd ar waith mewn perthynas â'r TPS effaith anghymesur ar unrhyw grwpiau gwarchodedig? Os felly, beth yw'r effaith anghymesur yn eich barn chi?

# Mater Polisi 2 - Cynyddu cyfraddau cyfraniadau aelodau

**Cefndir**

1. Mae darparu pensiynau o ansawdd da yn dod yn fwy heriol o ystyried bod disgwyliad oes yn cynyddu. Dyna pam y sefydlodd y Llywodraeth y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (IPSPC) a gaiff ei gadeirio gan yr Arglwydd Hutton i wneud argymhellion o ran sut y gellir sicrhau bod pensiynau o'r fath yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy, tra'n parhau'n deg i'r gweithlu ac i drethdalwyr.
2. Fel rhan o'i adolygiad, gwahoddwyd yr IPSPS i lunio adroddiad interim erbyn diwedd mis Medi 2010. Nododd y cylch gorchwyl y dylai'r adroddiad hwn ystyried yr achos dros gyflawni arbedion ar bensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus o fewn cyfnod yr adolygiad o wariant - yn gyson ag ymrwymiad y Llywodraeth i ddiogelu'r rheini ar incwm isel - er mwyn cyfrannu at ymdrechion i leihau'r diffyg strwythurol.
3. Yn ei adroddiad interim ar 7 Hydref 2010, argymhellodd yr Arglwydd Hutton fod hirhoedledd cynyddol a'r anghydbwysedd rhwng cyfraniadau cyflogwyr a chyflogeion yn rhesymau cadarn dros wneud newidiadau byrdymor i gyfraniadau pensiwn tra'n aros i'r cynlluniau gael eu hailgynllunio i raddau mwy sylweddol.
4. Ar 19 Gorffennaf 2011, nododd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yr egwyddorion a fyddai'n berthnasol i unrhyw gynnydd o ran cyfraniadau i aelodau cynlluniau pensiwn nas ariannwyd y gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y Cynllun Pensiynau Athrawon (TPS). Gwneir cyfanswm o £2.8 biliwn o arbedion cyffredinol bob blwyddyn ar draws cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus erbyn 2014-15. Mae'r newidiadau hyn yn cyfateb i gynnydd cyfartalog o 3.2 pwynt canran mewn cyfraniadau i aelodau cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus. Disgwyliwyd i'r arbedion hyn gael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o dair blynedd gan ddechrau ym mis Ebrill 2012, ar sail 40%:80%:100%.
5. Mae'r cynnydd arfaethedig mewn cyfraniadau yn adlewyrchu'r egwyddorion a nodwyd gan y Llywodraeth ac fe'i cynlluniwyd er mwyn sicrhau mai'r rheini sy'n ennill fwyaf sy'n talu'r cynnydd pwynt canran uchaf. Mae'r cynigion hefyd yn diogelu'r rheini sy'n ennill leiaf ac fe'u cynlluniwyd i annog cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan yn y cynllun.

**Y Cynnig**

1. Ym mis Gorffennaf 2011, ymgynghorodd yr Adran ar newidiadau arfaethedig i gyfraddau cyfraniadau ar gyfer aelodau'r Cynllun Pensiynau Athrawon (TPS). Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, cyflwynwyd cyfraniadau haenog i'r TPS o fis Ebrill 2012.
2. Wrth ddatblygu'r strwythur haenog, gweithiodd yr Adran yn agos â chynlluniau eraill y gwasanaeth cyhoeddus a Thrysorlys EM er mwyn sicrhau bod y cynnydd mewn cyfraniadau yn adlewyrchu amgylchiadau aelodau'r TPS, ac ystyriodd yr effaith ar wahanol garfanau o aelodau. Roedd y cynnydd mewn cyfraniadau yn adlewyrchu'r egwyddorion a nodwyd gan y Llywodraeth ac fe'i cynlluniwyd er mwyn sicrhau mai'r rheini sy'n ennill fwyaf sy'n talu'r cynnydd pwynt canran uchaf. Mae'r haenau hefyd yn diogelu'r rheini sy'n ennill leiaf ac fe'u cynlluniwyd i annog cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan yn y cynllun.

3. Ar 26 Hydref 2012, lansiodd yr Adran ymgynghoriad pellach ar gyfraddau cyfraniadau arfaethedig i aelodau. Ar ôl trafod gydag Undebau Llafur a chynrychiolwyr cyflogwyr, cyflwynodd yr ail gam hwn o gyfraniadau haenog haen ychwanegol. Diben cyflwyno 8fed haen oedd darparu diogelwch ychwanegol i'r rheini sy'n ennill ar lefelau canolig a sicrhau y caiff costau eu dosbarthu'n deg.

**Gweithredu**

4. Mae'r cyfraddau cyfraniadau arfaethedig ar gyfer 2014-15, y mae'r Adran yn ymgynghori arnynt, fel a ganlyn;

| **Enillion blynyddol pensiynadwy yn ystod y flwyddyn berthnasol (£)** | | **Cyfradd Cyfraniadau yn 2014-15*** | **Cynnydd (yn erbyn 2013-14)** |
|---|---|---|---|
| **Isaf** | **Uchaf** | **Haen %** | **Haen %** |
| Islaw | £14,999 | 6.4% | 0.0% |
| £15,000 | £25,999 | 7.2% | 0.2% |
| £26,000 | £31,999 | 8.3% | 0.4% |
| £32,000 | £39,999 | 9.5% | 0.7% |
| £40,000 | £44,999 | 9.9% | 0.7% |
| £45,000 | £74,999 | 11.0% | 0.9% |
| £75,000 | £99,999 | 11.6% | 1.0% |
| £100,000 | | 12.4% | 1.2% |

5. Mae'r Adran wedi gweithio'n agos â chynrychiolwyr aelodau i ddatblygu strwythur cyfraniadau gan aelodau ar gyfer 2014-15, a fydd yn parhau i fodloni ymrwymiad y Llywodraeth i ddiogelu'r rheini sy'n ennill leiaf.

6. Wrth ddatblygu'r strwythur hwn, mae'r Adran wedi rhoi sylw penodol i bryderon gan randdeiliaid y gall cynyddu cyfraddau cyfraniadau aelodau arwain at lefel uwch o bobl yn eithrio. Ers mis Ebrill 2012, bu'r Adran yn monitro nifer y bobl sy'n eithrio o'r TPS. Nid yw'r dadansoddiad o gyfraddau eithrio wedi dangos unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod nifer yr aelodau sy'n eithrio wedi cynyddu o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyfraniadau.

7. Cynnig yr Adran, fel y nodir yn y tabl uchod, yw parhau i gyflwyno'r strwythur cyfraniadau fel y'u gweithredwyd ym mis Ebrill 2013, gan gynyddu'r cyfraddau cyfraniadau er mwyn sicrhau'r flwyddyn olaf o arbedion.

8. Bydd y strwythur hwn yn arwain at gynnydd cyfartalog o 0.6 pwynt canran mewn cyfraniadau ar y cyfraddau a weithredwyd yn 2013.
9. Felly byddai cyflog blynyddol clir aelod sy'n ennill £35,000 yn 2014-15 yn gostwng £174 a byddai cyflog aelod sy'n ennill £50,000 yn ystod yr un cyfnod yn gostwng £276.

## Polisi 2 - Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 5**: A ydych yn cytuno y bydd strwythur arfaethedig yr Adran yn bodloni ymrwymiad y llywodraeth i ddiogelu'r rheini sy'n ennill leiaf a'r cynnydd uchaf i'r rheini sy'n ennill mwy.

**Cwestiwn 6**: A oes unrhyw ganlyniadau yn deillio o'r haenau cyfraniadau arfaethedig nad ymdriniwyd â hwy yn eich barn chi?

Wrth ddatblygu'r strwythur arfaethedig ar gyfer haenau cyfraniadau aelodau, mae'r Adran wedi rhoi sylw priodol i'n cyfrifoldebau cydraddoldeb fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldebau 2010.

**Cwestiwn 7**: A ydych o'r farn bod yna faterion cydraddoldeb sy'n golygu y caiff y strwythur cyfraniadau arfaethedig effaith anghymesur ar unrhyw grwpiau gwarchodedig? Os felly, beth yw'r effaith anghymesur yn eich barn chi?

# Mater Polisi 3 - Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013

1. Nid yw'r Adran yn ymgynghori ar newidiadau i'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013, ond mae'n defnyddio'r ymgynghoriad hwn fel cyfle i nodi sut y gwneir newidiadau arfaethedig i reoliadau'r cynllun o ganlyniad i'r Ddeddf.
2. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 17 Gorffennaf 2013 a'i phrif ddiben yw galluogi i gyplau o'r un rhyw briodi.
3. Cynigir y bydd is-ddeddfwriaeth, a wneir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), y mae Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn rhan ohoni, ymhlith pethau eraill, yn mewnosod diwygiadau testun i'r Rheoliadau Pensiynau Athrawon er mwyn cadw'r polisi presennol y dylai cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus drin cyplau priod o'r un rhyw fel partneriaid sifil, ac nid fel cyplau priod o'r rhyw arall. Bydd y ddarpariaeth hefyd yn llywodraethu'r ffordd y caiff cyplau sy'n cyd-fyw eu trin.

# Sut i ymateb

Caiff yr ymgynghoriad hwn ei gynnal o 12 Tachwedd 2013 hyd at 7 Ionawr 2014. Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy gwblhau'r ffurflen ymateb a'i hanfon dros yr e-bost i: **FairDealAndTechnicalChanges.CONSULTATION@education.gsi.gov.uk** neu drwy anfon eich ymateb drwy'r post i:

Teachers' Pension Consultation,

Teachers’ Pensions and De-regulation Division
Department for Education
Mowden Hall
Staindrop Road
DARLINGTON
DL3 9BG

## Copïau Ychwanegol

Mae copïau ychwanegol ar gael ar ffurf electronig a gellir eu lawrlwytho o wefan e-ymgynghori'r Adran Addysg yn:

www.education.gov.uk/consultations

## Cynlluniau ar gyfer cyhoeddi'r canlyniadau

Caiff canlyniadau'r ymgynghoriad ac ymateb yr Adran eu cyhoeddi ar wefan e-ymgynghori'r Adran ddechrau 2014.

**Atodiad A: Cytundeb Cyfranogi Drafft**

**(1) Yr Ysgrifennydd Gwladol - Yr Adran Addysg**

**(2) Awdurdod Contractio**

**(3) Corff sy'n Cyfranogi**

# CYTUNDEB CYFRANOGI

## yn ymwneud â chyfranogi yn y Cynllun Pensiynau Athrawon

**Gwneir y CYTUNDEB** DERBYN hwn ar [20__]

**RHWNG** :

(1) **Y Cynllun Pensiynau Athrawon**

(2) Yr [**Awdurdod Contractio**);

(3) [ x**]** o [address] (y "**Corff sy'n Cyfranogi**").

**CYTUNIR** fel a ganlyn:

1. **DEHONGLI**

1.1 Yn y cytundeb hwn, bydd y diffiniadau canlynol yn berthnasol oni fydd y cyd-destun yn nodi bod iddynt ystyr gwahanol:

| | |
|---|---|
| **Person** | Unigolyn a gaiff ei gynnwys yn y Cytundeb Cyfranogi. Darperir manylion adeg trosglwyddo, ond daw person a dderbynnir yn aelod cymwys ar yr adeg y bydd y contract allanol yn dechrau |
| **Contract** | Contract yr ymrwymir iddo rhwng yr Awdurdod Contractio a'r Corff sy'n Cyfranogi dyddiedig [ ] |
| **Awdurdod Contractio** | Y cyflogwr sy'n trefnu'r ddarpariaeth addysg allanol |
| **Dyddiad Gweithredol** | Y dyddiad y caiff cyflogaeth pob Person a Dderbynnir ei throsglwyddo o'r Awdurdod Contractio i'r Corff sy'n Cyfranogi |
| **Cyflogai Cymwys** | Y cyflogeion hynny y cyfeirir atynt yng Nghymal 3.1 |
| **Gwasanaeth Cymwys Ychwanegol** | Gwasanaeth a ddarperir gan y Corff sy'n Cyfranogi ar ran yr Awdurdod Contractio |
| **Gweithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau (IDRP)** | Y weithdrefn gwyno statudol o'r un enw sy'n rhoi'r hawl i Gyrff a Dderbynnir a/neu aelodau a Dderbynnir gyflwyno cwynion ffurfiol am y broses o weinyddu'r Cynllun, eu haelodaeth a'u buddiannau ymddeol |
| **Corff sy'n Cyfranogi** | Sefydliad neu gorff (sef y cyflogwr newydd) a gaiff ei dderbyn i'r Cynllun yn unol â Chanllawiau Newydd y Fargen Deg ac a fydd yn darparu'r gwasanaeth drwy gytundeb allanol |
| **Rheoliadau** | Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2010 |
| **Cynllun** | Cynllun Pensiynau Athrawon (TPS) |
| **Actiwari'r Cynllun** | Yr actiwarïaid a gaiff eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol |
| **Gweinyddwr y Cynllun** | Y gweinyddwr a gaiff ei benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol |
| **Aelod o'r Cynllun** | Unrhyw berson sy'n aelod parhaus o'r Cynllun o ganlyniad i gymhwyso'r Fargen Deg |
| **Gwasanaethau** | Y gwasanaethau a nodir yn y Contract i'w darparu gan y Corff sy'n Cyfranogi |
| **Is-gontractwr** | Unrhyw is-gontractwr a gaiff ei benodi gan y Corff sy'n Cyfranogi |

1.2 Lle bydd y cyd-destun yn cadarnhau hynny, mae geiriau sy'n ymwneud â dynion hefyd yn ymwneud â merched ac i'r gwrthwyneb, ac mae **geiriau sy'n awgrymu ffurf unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb.**

1.3 Mae cyfeiriadau at unrhyw ddarpariaeth statudol yn cynnwys unrhyw gyn-ddeddfiad, addasiad, ailddeddfiad neu estyniad o'r ddarpariaeth honno sydd mewn grym ar y pryd ac unrhyw offerynnau statudol, gorchmynion, rheoliadau neu reolau statudol a wneir o bryd i'w gilydd o dan y ddarpariaeth honno.

1.4 Mae cyfeiriadau at unrhyw offeryn statudol, gorchymyn, rheoliad neu reol statudol yn cynnwys y ddarpariaeth statudol y'i gwneir oddi tani gan gynnwys unrhyw ddiwygiad sydd mewn grym ar y pryd.

1.5 Mae'r ymadrodd "person" yn cynnwys unrhyw gwmni, sefydliad neu gorff o bobl (boed yn gorfforedig ai peidio).

1.6 Bydd gan dermau diffiniedig nas diffinnir yn y cytundeb hwn yr ystyron a roddwyd iddynt yn rhan berthnasol y Rheoliadau neu'r Deddfau.

1.7 Ni fydd unrhyw gymal o dan y Cytundeb Cyfranogi hwn yn diddymu nac yn lleihau hawliau person cymwys o dan reoliadau'r cynllun mewn unrhyw ffordd.

2. **CYFRANOGI**

2.1 Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am y TPS o dan y Rheoliadau (yr "**Awdurdod Cyfrifol**").

2.2 Roedd y Contract, ymhlith pethau eraill, yn darparu ar gyfer trosglwyddo cyflogeion yr Awdurdod Contractio i'r Corff sy'n Cyfranogi ac ar gyfer darparu gwasanaethau i'r Awdurdod Contractio gan y Corff sy'n Cyfranogi (y cyfeirir at wasanaethau o'r fath yn y Cytundeb hwn fel y "**Gwasanaethau**").

2.3 Bydd y Corff sy'n Cyfranogi, o bob Dyddiad Gweithredol, yn cyflogi pobl a oedd yn aelodau o'r Cynllun yn union cyn y Dyddiad Gweithredol, neu yr oedd hawl ganddynt i fod yn aelodau o'r Cynllun, drwy rinwedd:

2.3.1 y ffaith eu bod wedi'u cyflogi gan yr Awdurdod Contractio,

2.3.2 y ffaith eu bod wedi'u cyflogi yn unol â'r rhestr yn Atodlen 2 o Reoliadau Pensiynau Athrawon 2010, neu

2.4 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol, fel yr Awdurdod Cyfrifol, wedi penderfynu:

bod y cytundeb hwn yn berthnasol i gyflogeion y Corff sy'n Cyfranogi fel y'u disgrifir yng Nghymal 2.3 uchod.

3. **CYMHWYSEDD O RAN AELODAETH**

3.1 Mae unrhyw un o gyflogeion y Corff sy'n Cyfranogi sydd:

3.1.1 yn berson y mae Cymal 2.3 yn berthnasol iddo, ac

3.1.2 wedi'i gyflogi mewn perthynas â darparu'r gwasanaethau y cyfeirir atynt yng Nghymal 2.2, ac

3.1.3 [sy'n ymwneud yn llwyr neu'n bennaf â]

(a) darparu'r Gwasanaethau] o dan y Contract; yn gymwys i fod yn aelod o'r Cynllun (y "**Cyflogeion Cymwys**").

3.2 Yn ddarostyngedig i Gymal 4 isod, ni fydd Cyflogai Cymwys bellach yn gymwys i fod yn aelod o'r Cynllun (ac yn achos aelod gweithredol, bydd yn rhoi'r gorau i gronni buddiannau) os bydd:

3.2.1 yn methu â chyflawni unrhyw un o'r meini prawf a restrir o dan Gymal 3.1 mwyach; neu

3.2.2 yn dewis o'i wirfodd i ddod yn aelod gweithredol o unrhyw gynllun pensiwn galwedigaethol arall a ddarperir gan y Corff sy'n Cyfranogi.

## 4. DERBYN AELODAU/TERFYNU AELODAETH

4.1 Oni fydd unrhyw berson o'r fath wedi dewis peidio â dod yn aelod o'r Cynllun drwy hysbysu'r Corff sy'n Cyfranogi yn ysgrifenedig, bydd person y mae Cymal 3.1 yn berthnasol iddo yn parhau i fod yn Aelod o'r Cynllun o'r cyfryw ddyddiad (neu ddyddiadau) fel y gall y Corff sy'n Cyfranogi, yr Awdurdod Contractio a'r Ysgrifennydd Gwladol gytuno arnynt, ac os nad oes unrhyw gytundeb arall:

4.1.1 bydd cyflogai a oedd yn Aelod o'r Cynllun yn union cyn y Dyddiad Gweithredol yn parhau i fod yn Aelod o'r Cynllun yn union ar ôl y Dyddiad Gweithredol heb orfod datgan hynny'n benodol, a

4.1.2 caiff cyflogai nad oedd yn Aelod o'r Cynllun yn union cyn y Dyddiad Gweithredol ond a oedd yn gymwys i ddod yn Aelod o'r Cynllun ei gofrestru'n awtomatig fel Aelod o'r Cynllun.

4.2 Mae'r Corff sy'n Cyfranogi drwy hyn yn datgan ac yn gwarantu i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Awdurdod Contractio y caiff pob Cyflogai Cymwys nad yw'n Aelod o'r Cynllun ei gofrestru'n awtomatig i'r Cynllun ac ymhob cyfnod cofrestru awtomatig dilynol cyhyd ag y bydd y cyflogai yn parhau'n Gyflogai Cymwys.

4.3 Mae'r Corff sy'n Cyfranogi yn ymrwymo i roi hysbysiad ysgrifenedig i Reolwr y Cynllun a Gweinyddwr y Cynllun am unrhyw Aelod o'r Cynllun nad yw mwyach yn Gyflogai Cymwys o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad nad yw bellach yn gymwys.

4.4 Mae'r Corff sy'n Cyfranogi drwy hyn yn cytuno ac yn cydnabod ac eithrio'r Cyflogeion Cymwys; na fydd unrhyw un o'i gyflogeion yn gymwys i gael ei dderbyn fel Aelod o'r Cynllun. Mae'r Corff sy'n Cyfranogi yn cytuno i ddigolledu'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Awdurdod Contractio am yr holl ac unrhyw golledion yn deillio o sefyllfa lle y bydd unrhyw berson nad yw'n Gyflogai Cymwys yn dod yn aelod o'r Cynllun, yn parhau i fod yn aelod o'r Cynllun neu'n honni ei fod yn aelod o'r Cynllun.

4.5 Mae'r Corff sy'n Cyfranogi drwy hyn yn cytuno i hysbysu unrhyw Gyflogai Cymwys ac ymgynghori ag ef cyn gwneud unrhyw newidiadau i delerau ac amodau cyflogaeth a fyddai'n golygu na fyddai unrhyw Gyflogai Cymwys yn gymwys i barhau i gael ei dderbyn i'r Cynllun fel Aelod o'r Cynllun. Bydd y Corff sy'n Cyfranogi yn darparu cadarnhad ysgrifenedig i Reolwr y Cynllun a Gweinyddwr y Cynllun fod trefniadau hysbysu ac ymgynghori o'r fath wedi'u rhoi ar waith a bydd yn digolledu'r Cynllun a'r Awdurdod Contractio mewn perthynas ag unrhyw golledion sy'n deillio o unrhyw fethiant ar ran y Corff sy'n Cyfranogi i hysbysu ac ymgynghori.

4.6 Mae'r Corff sy'n Cyfranogi yn cytuno gyda'r Cynllun a'r Awdurdod Contractio y bydd yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o unrhyw newid perthnasol yn y telerau ac amodau cyflogaeth sy'n effeithio ar hawl unrhyw Aelod o'r Cynllun i fuddiannau o dan y Cynllun, gan gynnwys unrhyw achos o derfynu cyflogaeth, o fewn 28 diwrnod.

4.7 Bydd y Corff sy'n Cyfranogi yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Awdurdod Contractio am unrhyw fater a all effeithio neu sy'n debygol o effeithio ar ei gyfranogiad yn y Cynllun o fewn 28 diwrnod, a rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Awdurdod Contractio am unrhyw newid gwirioneddol neu arfaethedig yn ei statws a all olygu y bydd yn rhaid iddo roi'r gorau i gyfranogi yn y Cynllun, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) trosfeddiannu, ail-greu neu uno, mynd yn fethdalwr neu fynd i ddwylo'r derbynwyr neu newid o ran natur ei fusnes neu ei gyfansoddiad.

## 5. RHWYMEDIGAETHAU CYFFREDINOL Y CORFF SY'N CYFRANOGI

5.1 Bydd y Corff sy'n Cyfranogi yn parhau'n Gorff a Dderbynnir am oes y Contract (gan gynnwys unrhyw estyniad neu broses aildendro lle bydd y Corff sy'n Cyfranogi yn parhau i ddarparu'r Gwasanaethau neu ran ohonynt) oni chaiff y cytundeb hwn ei derfynu yn unol â'i delerau a hyd nes y digwydd hynny.

5.2 Mae'r Corff sy'n Cyfranogi yn cytuno i ddilyn holl rwymedigaethau cyflogwr o dan Reoliadau'r Cynllun a bydd yn cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau hynny.

5.3 Bydd y Corff sy'n Cyfranogi, o'r Dyddiad Gweithredol, yn mabwysiadu'r arferion a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â gweithredu'r Cynllun a nodir yn Rheoliadau'r Cynllun ac unrhyw ganllawiau a ddarperir gan Weinyddwr y Cynllun ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

5.4 Mae'r Corff sy'n Cyfranogi yn cytuno na fydd yn gweithredu mewn unrhyw ffordd a fydd yn rhoi ei gyfranogiad yn y Cynllun yn y fantol.

5.5 Bydd y Corff sy'n Cyfranogi yn digolledu'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Awdurdod Contractio am unrhyw golledion yr eir iddynt gan y partïon hynny yn deillio o achos o fynd yn groes i unrhyw un o delerau'r cytundeb hwn gan y Corff sy'n Cyfranogi.

6. **COSTAU I'W TALU GAN Y CORFF SY'N CYFRANOGI A RHWYMEDIGAETHAU YCHWANEGOL**

6.1 Bydd y Corff sy'n Cyfranogi yn talu pob cyfraniad o'r fath (boed yn gyfraniadau rheolaidd neu untro) sy'n ofynnol gan gyflogwr o dan reoliadau'r Cynllun i'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd yn cynnwys y canlynol ond na fydd yn gyfyngedig iddo:

6.1.1 cyfraniadau misol y cyflogwr a'r cyflogeion sy'n ddyledus i'w didynnu gan y Corff sy'n Cyfranogi;

6.1.2 y cyfryw gyfraniadau ychwanegol fel y gellir eu pennu i ddigolledu'r Ysgrifennydd Gwladol am achos lle y bydd y Corff sy'n Cyfranogi wedi mynd yn groes i'r telerau ar gyfer cyfranogi yn y Cynllun lle mae'r achos hwnnw wedi arwain at gynnydd yng nghostau neu rwymedigaethau'r Cynllun,

6.2 O ran ymddeoliad cynnar (ac eithrio ar sail salwch) unrhyw Aelod o'r Cynllun, rhaid i'r Corff sy'n Cyfranogi:

6.2.1 o leiaf dri mis cyn dyddiad gweithredol unrhyw ymddeoliad cynnar (Ymddeoliad cynamserol), rhoi hysbysiad ysgrifenedig am y cyfryw ymddeoliad cynnar i Weinyddwr y Cynllun;

6.2.2 heb fod yn hwyrach na'r dyddiad y daw unrhyw ymddeoliad cynnar (Ymddeoliad cynamserol) yn weithredol, talu'r cyfryw swm neu symiau i'r Cynllun ag y bydd Actiwari'r Cynllun yn eu pennu i wneud iawn am unrhyw rwymedigaethau ychwanegol a achosir gan yr ymddeoliad cynnar.

6.3 Ni fydd y Corff sy'n Cyfranogi yn dyfarnu unrhyw fuddiannau i unrhyw Aelod o'r Cynllun a fyddai'n arwain at gynnydd yn rhwymedigaethau'r Cynllun.

6.4 Ni fydd unrhyw gytundeb rhwng y Corff sy'n Cyfranogi a'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n arwain at ledaenu setliad o unrhyw daliad untro dros gyfnod o amser neu ei gynnwys o fewn cyfradd cyfraniadau misol y cyflogwr, yn golygu y caiff yr elfen honno ei hystyried yn rhan o gyfradd cyfraniadau arferol y cyflogwr.

7. **ADDASIADAU COST/CAPIO COSTAU**

7.1 Mae'r Corff sy'n Cyfranogi yn cytuno ac yn cydnabod y gellir diwygio'r cyfraniadau cyflogwr y cyfeirir atynt yng Nghymal 6.1 yn dilyn prisiad o'r Cynllun. Mae'r Corff sy'n Cyfranogi yn cytuno i dalu unrhyw gynnydd o ran cyfraniadau'r cyflogwr sy'n ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

7.2 Caiff cyfraniadau pensiwn i'r Cynllun ar gyfer y Corff sy'n Cyfranogi eu pennu ar yr un cyfraddau â'r holl gyflogwyr eraill sy'n rhan o'r Cynllun oni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu fel arall.

8. **INDEMNIAD YR AWDURDOD CONTRACTIO**

8.1 **OS BYDD Y CORFF SY'N CYFRANOGI YN METHU Â CHYDYMFFURFIO Â'I RWYMEDIGAETHAU O DAN Y CYTUNDEB HWN (GAN GYNNWYS, HEB GYFYNGIAD, EI RWYMEDIGAETHAU I WNEUD POB CYFRANIAD CYFLOGWR A CHYFLOGAI I'R YSGRIFENNYDD GWLADOL, A RHOI CYFRIF IDDO AMDANYNT, A GWNEUD UNRHYW DALIAD I'R YSGRIFENNYDD GWLADOL YN UNOL Â CHYMAL 6), MAE'R AWDURDOD**

**CONTRACTIO YN CYTUNO I DALU AR ORCHYMYN** unrhyw symiau a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn gwneud iawn am unrhyw achos lle bydd y Corff sy'n Cyfranogi wedi mynd yn groes i'w delerau ar gyfer cyfranogi yn y Cynllun lle mae'r achos hwnnw wedi arwain at gynnydd yng nghostau neu rwymedigaethau'r Cynllun.

8.2 **LLE BYDD YR AWDURDOD CONTRACTIO YN DERBYN GORCHYMYN AM DALIAD GAN YR YSGRIFENNYDD GWLADOL YN UNOL Â CHYMAL 8.1 UCHOD, BYDD YN TREFNU I SYMIAU O'R FATH GAEL EU TALU AR UNWAITH I'R YSGRIFENNYDD GWLADOL NEU O FEWN Y CYFRYW GYFNOD AMSER ARALL AG A BENNIR GAN YR YSGRIFENNYDD GWLADOL.**

9. **GWRTHBWYSO**

O dan y contract, gall yr Awdurdod Contractio, yn ôl ei ddisgresiwn, wrthbwyso swm sy'n gyfwerth ag unrhyw gyfraniadau cyflogwr a chyflogai sy'n orddyledus a thaliadau eraill sy'n ddyledus gan y Corff sy'n Cyfranogi i'r Cynllun o dan y Cytundeb hwn yn erbyn unrhyw daliadau sy'n ddyledus i'r Corff sy'n Cyfranogi (neu, lle mai is-gontractwr yw'r Corff sy'n Cyfranogi, i'r prif gontractwr).

**COFNODION A GWEINYDDU**

9.1 Bydd y Corff sy'n Cyfranogi yn cadw cofnodion (gan gynnwys cofnodion o'r gyflogres) a chyfrifon cywir a chyfredol yn unol â'r holl ganllawiau a gyhoeddir gan yr **YSGRIFENNYDD GWLADOL** o bryd i'w gilydd.

9.2 Bydd y Corff sy'n Cyfranogi yn cydweithredu ac yn rhoi cymorth ymhob ffordd resymol i gynrychiolwyr awdurdodedig yr **YSGRIFENNYDD GWLADOL**, gan gynnwys:

9.2.1 rhoi'r holl wybodaeth y bydd yr **YSGRIFENNYDD GWLADOL** yn gofyn yn rhesymol amdani mewn modd amserol;

9.2.2 darparu mynediad rhesymol i bersonél perthnasol y Corff sy'n Cyfranogi.

9.3 Bydd y Corff sy'n Cyfranogi yn trosglwyddo holl gofnodion angenrheidiol yr aelodau i unrhyw gyflogwr newydd ar y cyfryw adegau ac yn y cyfryw fodd sy'n ofynnol gan yr **YSGRIFENNYDD GWLADOL.**

10. **DATRYS ANGHYDFODAU**

10.1 Yn ddarostyngedig i Gymal 10.2 isod, caiff unrhyw gwestiwn a all godi rhwng y partïon i'r Cytundeb hwn o ran strwythur y Cytundeb hwn, neu'r hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig ag ef, ei gyfeirio'n ysgrifenedig i'r **YSGRIFENNYDD GWLADOL**.

10.2 Ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn effeithio ar hawliau'r Corff sy'n Cyfranogi a/neu'r Awdurdod Contractio a/neu Aelodau'r Cynllun mewn perthynas â'r Gweithdrefnau Mewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau.

11. **TERFYNU**

11.1 Gall yr **YSGRIFENNYDD GWLADOL** derfynu'r cytundeb hwn o dan unrhyw un neu bob un o'r amgylchiadau canlynol:

11.1.1 os bydd y Corff sy'n Cyfranogi yn mynd yn groes i unrhyw un o'r rhwymedigaethau a gynhwysir yn y cytundeb hwn neu'r rheoliadau (ond lle y byddai'n bosibl unioni'r mater, dim ond lle nad unionwyd y mater o fewn cyfnod rhesymol ac mewn unrhyw achos, o fewn 28 diwrnod o gyflwyno hysbysiad y cyfeirir ato yn y Cymal 11.1 hwn);

11.1.2 os bydd y Corff sy'n Cyfranogi yn methu â thalu unrhyw symiau sy'n ddyledus i'r **YSGRIFENNYDD GWLADOL** o dan y cytundeb hwn o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y byddant yn ddyledus;

11.1.3 os bydd y Corff sy'n Cyfranogi yn mynd yn fethdalwr, yn dirwyn i ben neu'n cael ei ddatod; neu

11.1.4 os bydd y Contract yn dirwyn i ben (heb ei adnewyddu neu heb aildendro'r Gwasanaethau i'r Contractwr yn llwyr neu'n rhannol) neu'n cael ei derfynu am unrhyw reswm.

Bydd yr **YSGRIFENNYDD GWLADOL** yn cyflwyno hysbysiad terfynu ysgrifenedig i bob parti arall sy'n rhan o'r cytundeb hwn, gan nodi'r dyddiad y caiff y cytundeb ei derfynu.

11.2 Bydd y cytundeb yn terfynu'n awtomatig o dan yr amgylchiadau canlynol:

11.2.1 pan na fydd yr Aelod olaf o'r Cynllun yn gymwys mwyach i fod yn aelod gweithredol o'r Cynllun o dan y cytundeb hwn;

11.2.2 **CAIFF Y CONTRACT EI DERFYNU ONI FYDD Y CORFF SY'N CYFRANOGI YN PARHAU I DDARPARU'R GWASANAETHAU YN LLWYR NEU'N RHANNOL LLE BYDD YR AWDURDOD CONTRACTIO WEDI RHOI PROSES AILDENDRO AR WAITH AR EU CYFER.**

11.3 Ni fydd unrhyw achos o derfynu neu ddirwyn i ben yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar hawliau, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau cronedig naill ai'r Corff sy'n Cyfranogi na'r Awdurdod Contractio y bwriedir iddynt barhau ar ôl terfynu neu ddirwyn i ben.

11.4 Os bydd y Corff sy'n Cyfranogi yn rhoi'r gorau i gyfranogi yn y Cynllun, bydd y Corff sy'n Cyfranogi yn sicrhau y caiff unrhyw gofnodion a data mewn perthynas ag Aelodau'r Cynllun neu gyn Aelodau'r Cynllun fel y gall fod eu hangen er mwyn trosglwyddo'r bobl hyn yn effeithiol neu er mwyn hwyluso'r broses o weinyddu'r Cynllun eu cyflwyno i'r Cynllun o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad terfynu gweithredol.

## 12. CYFLWYNO HYSBYSIADAU

12.1 Rhaid cyflwyno hysbysiad o dan y cytundeb hwn yn ysgrifenedig ac, oni fydd y parti sy'n ei dderbyn yn ei gydnabod, bydd yn ddilys os bydd yn cydymffurfio â'r darpariaethau canlynol (a dim ond os bydd yn gwneud hynny):

12.1.1 rhaid i'r hysbysiad gael ei gyflwyno'n bersonol neu ei anfon drwy wasanaeth post cofrestredig ('registered post') neu wasanaeth cofnodi'r dosbarthiad ('recorded delivery');

12.1.2 rhaid cyflwyno'r hysbysiad:

(a) lle mae'r parti sy'n ei dderbyn yn gwmni sy'n gorfforedig ym Mhrydain Fawr, yn ei swyddfa gofrestredig; neu

(b) lle mai'r Awdurdod Contractio yw'r parti sy'n ei dderbyn, yng nghyfeiriad y parti hwnnw fel y'i nodir yn y cytundeb hwn neu unrhyw gyfeiriad amgen a ddynodir mewn hysbysiad a gyflwynwyd gan y parti hwnnw i'r partïon eraill.

12.2 Oni chaiff ei ddychwelyd gan y Post Brenhinol heb ei ddanfon, ystyrir bod hysbysiad a anfonwyd drwy wasanaeth post cofrestredig neu wasanaeth cofnodi'r dosbarthiad wedi'i gyflwyno ar y trydydd diwrnod ar ôl ei bostio pryd bynnag a pha un bynnag a gaiff ei dderbyn.

## 13. HAWLIAU TRYDYDD PARTÏON

Ni fydd gan unrhyw berson nad yw'n barti i'r cytundeb hwn unrhyw hawl o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 i orfodi unrhyw un o delerau'r cytundeb hwn.

14. **GWEITHREDWYD FEL GWEITHRED** gan y partïon ar y dyddiad sy'n ymddangos gyntaf yn y cytundeb hwn.

## SCHEDULE 1

## RHESTR O'R CYFLOGEION Y MAE'R CYTUNDEB HWN YN BERTHNASOL IDDYNT

| Cyfenw | Llythrennau Cyntaf | Rhif Yswiriant Gwladol | Rhif cyfeirnod pensiwn athrawon |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

## SCHEDULE 2

**GWEITHREDWYD** fel Gweithred )

(ond nis cyflawnwyd hyd nes y caiff ei ddyddio) )

...................................................... )

dros ac ar ran yr Awdurdod Contractio )

yng ngŵydd: )

Llofnod y tyst:

Enw'r tyst:

Cyfeiriad:

Galwedigaeth:

**GWEITHREDWYD** fel Gweithred (ond nis )

cyflawnwyd hyd nes y caiff ei ddyddio) )

gan .................................................................. )

)

ar ran dau Gyfarwyddwr neu )

Gyfarwyddwr a'r Ysgrifennydd:

GWEITHREDWYD fel Gweithred (ond nis )

cyflawnwyd hyd nes y caiff ei ddyddio) )

......................................

)

dros ac ar ran yr

)

Ysgrifennydd Gwladol

)

yng ngŵydd: